Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# First Foundations Day Nursery / Meithrinfa Camau Tirion
# Heol Goffa
# Llanelli
# SA15 3EJ

## Dyddiad yr arolygiad:  Chwefror 2019

## gan

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

## a

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â First Foundations Day Nursery/Meithrinfa Camau Tirion

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Meithrinfa Camau Tirion |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | D/B |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Miranda Williams |
| Person â gofal | Amber Shadrach, Sara Walters a Miranda Williams. |
| Nifer y lleoedd | 40 |
| Amrediad oedran y plant | 0 – 12 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 0 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener rhwng 8:00 a 18:00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydi |
| Iaith y lleoliad | Dwyieithog |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu "cynnig gweithredol" y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg a'i diwylliant.. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 27 Gorffennaf 2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 15 a 16 Hydref 2012 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 5 a 6 Chwefror 2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br>Mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad Saesneg fel iaith y cartref. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Barn** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Cynllunio'n fwriadus ddatblygu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant yn systematig ar draws y meysydd dysgu

A2 Gwella trefniadau i sicrhau preifatrwydd plant wrth ddefnyddio'r toiled

A3 Sicrhau bod meini prawf llwyddiant y cynllun datblygu yn fesuradwy ac yn cael eu hadolygu yn rheolaidd

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae’r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio’n hyderus â’i gilydd a gyda’r ymarferwyr. Ar draws y lleoliad, maent yn mynegi eu hunain yn glir ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau da ynglŷn â ble a gyda phwy i chwarae. Mae bron pob un o’r plant yn awgrymu syniadau yn ystod cyfnod cynllunio’r thema ar gyfer bob tymor yn effeithiol. Mae’r rhan fwyaf yn mynegi eu hoffterau’n hyderus; er enghraifft, roedd un plentyn yn gorwedd ar y mat yn y gornel ddarllen gan nad oedd yn dymuno dawnsio.

Mae bron pob un o’r plant yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn ymgartrefu’n gyflym. Mae’r ychydig sy’n cynhyrfu o weld eu rhieni yn gadael yn tawelu’n gyflym ac yn mynd at ymarferwyr yn hyderus am gysur. Mae bron pob un plentyn yn ffurfio perthynas gadarnhaol â’u gweithwyr allweddol a phlant eraill. Er enghraifft, mae babanod yn deffro’n hapus ac yn mynegi eu bodlonrwydd drwy wenu ac estyn am eu gweithiwr allweddol.

Mae bron pob un plentyn yn ymddwyn yn dda. Maent yn cymryd eu tro ac yn helpu ei gilydd pan fo’n briodol, er enghraifft drwy gynorthwyo’i gilydd i gasglu peli. Mae bron pob un yn gwrtais gan ddweud ‘diolch’ ac ‘os gwelwch yn dda’, pan fo’n briodol. Mae plant hŷn wedi cyfrannu’n bositif at reolau ymddygiad a gwrthfwlio y lleoliad.

Mae bron pob un o’r plant yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu, er enghraifft wrth chwarae â reis i lenwi a gwagio cwpanau a phowlenni. Maent yn frwdfrydig ac yn canolbwyntio’n dda ac am gyfnodau estynedig ar eu tasgau. Maent yn dangos diddordeb yn eu gweithgareddau ac yn teimlo’n gyffrous. Er enghraifft, maent yn stampio’u traed yn gyffrous wrth i’r gerddoriaeth ddechrau chwarae.

Mae bron pob un plentyn yn gwneud cynnydd da yn ôl eu cam datblygu. Er enghraifft, mae’r plant ieuengaf, sydd ddim eto yn cerdded, yn tynnu eu hunain i fyny ar ddodrefn yn annibynnol tra bod plant eraill yn ceisio symud o amgylch yr ystafell chwarae drwy lusgo ar hyd y llawr. Mae rhan fwyaf o’r plant yn cyfri, adnabod siapau ac enwi lliwiau yn hyderus.

Mae bron pob un o’r plant yn dod yn fwyfwy annibynnol. Maent yn defnyddio toiledau a golchi eu dwylo heb gymorth. Un o gryfderau’r lleoliad yw’r ffordd y mae pob un plentyn yn ymddywn yn dda ac yn deall pwysigrwydd bod yn garedig i’w gilydd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Barn**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant oherwydd nid oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Rhoddir blaenoriaeth uchel i ddiogelu plant, ac mae ymarferwyr ac arweinwyr yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn llwyddiannus iawn. Mae gan bob un o’r ymarferwyr

ddealltwriaeth gadarn o'u rôl a'u cyfridoldebau mewn perthynas â diogelu plant. Maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad fel gweini moddion a gweithdrefnau hylendid ar waith. Cynigir byrbrydau a phrydau iachus a maethlon i'r plant.

Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn fedrus. Maent yn canmol ymddygiad a chyflawniadau ac yn cynnig anogaeth yn gadarnhaol pan fydd plant yn ceisio gwneud pethau drostynt eu hunain. Rhoddir cysur parod a chydymdeimlad i blant sydd yn cynhyrfu neu'n cyrraedd yn anhapus. Mae'r holl ymarferwyr yn siarad â'r plant mewn modd digynnwrf a thawel. O ganlyniad, mae ymddygiad bron pob un plentyn yn dda.

Un o gryfderau'r lleoliad yw'r ffordd mae ymarferwyr yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i fodloni anghenion y plant. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn, ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion, galluoedd a'u hoffterau unigol. Er enghraifft, mae staff yn darparu adnoddau sy'n bwysig i blant unigol. Mae ymarferwyr yn bennaf gyfrifol am grŵp penodol o blant ac yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'r rhieni ar lafar yn ogystal â thrwy lyfr dyddiol. Mae'r plant yn derbyn gofal sy'n gyson â'u harferion unigol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn bodloni anghenion ychwangeol plant yn hynod dda ac yn adnabod arwyddion di-eiriau. Mae ymarferwyr yn trin pob plentyn ag urddas a pharch. Maent yn cyfarch pob plentyn a rhieni yn frwdfrydig pan maent yn cyrraedd.

Mae ymarferwyr yn trin pob plentyn fel unigolyn ac yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda trwy storïau, dathliadau, a themâu wedi'u cynllunio. Er enghraifft, maent yn dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd drwy flasu gwahanol fwydydd a chreu dreigiau lliwgar.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau effeithiol iawn i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol. Mae ymarferwyr a gweithwyr allweddol yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol i gefnogi datblygiad plant. Mae ymarferwyr yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr a phwrpasol i rieni ac yn cynnwys targedau priodol am eu datblygiad. Mae llawer o blant yn annibynnol. Er hynny, mae'r lleoliad yn colli cyfleoedd i feithrin annibyniaeth y plant hŷn yn ystod amser byrbryd. Er enghraifft, yn y clwb ar ôl ysgol, nid yw'r plant yn dosbarthu cwpanau a'r bwyd.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Un o gryfderau'r lleoliad yw'r modd y mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ac yn cefnogi ei gilydd er lles y plant. Mae perthynas hyfryd yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r plant ac maent yn darparu awyrgylch ddysgu gynhaliol ac ysgogol.

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen. Maent yn sicrhau cydbwysedd llwyddiannus rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion a rhai sy'n cael eu dewis gan blant y tu fewn a thu allan.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau cadarn ar gyfer cynllunio sy'n datblygu medrau'r plant yn yr holl feysydd dysgu. Rhan greiddiol o'r cynllunio yw'r ffordd y mae ymarferwyr yn cynnwys syniadau'r plant fel rhan o'r cynllunio. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn cynllunio gweithgareddau sy'n herio plant o wahanol alluoedd yn ddigon cyson.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn modelu iaith yn dda a chyson ac yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddatblygu eu medrau iaith. Maent yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd cyson i ymarfer ymateb i gwestiynau cyfarwydd a gwneir defnydd llwyddiannus o ganeuon a rhigymau. Maent yn rhoi cyfle buddiol i'r plant drin llyfrau'n ofalus gan ddechrau mwynhau ymddwyn fel darllenwyr. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau ysgrifennu cynnar y plant yn yr ystafell chwarae yn ogystal ag yn yr ardal chwarae allan.

Mae cyfleoedd cyson i blant ddatblygu eu medrau rhifedd o fewn tasgau ffocws. Enghraifft effeithiol o hyn yw cyfri a chodi pompomau coch sy'n cyfateb i'r rhif yn yr amlen a'u gosod yn ofalus mewn powlen reis fel rhan o ddathliadau'r Flwyddyn Newydd Tseiniaidd. Fodd bynnag, nid yw plant yn cael digon o gyfleoedd cyson i atgyfnerthu eu medrau rhifedd mewn gweithgareddau eraill. Mae'r plant yn cael cyfleoedd addas i ddefnyddio offer TGCh, ond nid oes digon o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau yn systematig. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd addas i blant ddatblygu medrau corfforol a datrys problemau.

Mae ymarferwyr yn cynllunio a darparu profiadau buddiol i'r plant gael datblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Enghraifft o hyn yw'r cyfle i gasglu bwyd ar gyfer rhai llai ffodus a mynd â'r cyfraniadau i'r banc bwyd lleol. Mae'r ymarferwyr yn trefnu cyfleoedd priodol i'r plant ddysgu a dathlu eu Cymreictod trwy fynychu gŵyl leol i fwynhau'r bwrlwm Cymreig a chwrdd â chymeriadau poblogaidd. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio ymweliadau lleol ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn dda.

Mae'r trefniadau ar gyfer asesu cynnydd y plant yn effeithiol ac mae ymarferwyr yn adnabod anghenion pob plentyn yn dda. Mae'r ymarferwyr yn canmol plant ar lafar yn gyson a phwrpasol ac yn eu holi'n fedrus. Mae'r broses o arsylwi ac asesu'r plant yn sicrhau bod plant yn cael y gefnogaeth angenrheidiol. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd bwriadus o'r asesiadau i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r plant.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel, yn gynnes ac yn lân. Mae ymarferwyr yn ymwybodol o'u rolau er mwyn cynnal diogelwch plant ac mae asesiadau risg yn drylwyr.

Mae gweithdrefnau da yn eu lle ar gyfer cadw'r safle'n lân ac ar gyfer cynnal a chadw. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid effeithiol i ddiheintio byrddau cyn ac ar ôl prydau. Mae ymarferwyr yn gwisgo ffedogau a menyg cyn newid cewynnau y plant i leihau'r risg o draws-heintio. Mae pob un yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb yn y rota glanhau wythnosol.

Lleolir y toiledau a basnau golchi dwylo mewn mannau hwylus sy'n golygu bod plant yn gallu eu defnyddio'n annibynnol. Mae'r toiledau a chyfleusterau newid cewynnau yn lân. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau toliedau yn sicrhau preifatrwydd plant yn llwyr.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd chwarae yn ysgogol ac yn symbylus ar gyfer y plant. Ceir arddangosfeydd ar draws yr adeilad sy'n hyrwyddo synnwyr plant o berthyn a'u cyflawniadau yn effeithiol. Rhoddir ethos y cyfnod sylfaen ar

waith yn llwyddiannus trwy greu ardaloedd chwarae a dysgu, tu fewn a thu allan. Caiff lles plant ei hyrwyddo'n llwyddiannus trwy gael mynediad i ddewis helaeth o deganau ac offer yn y dair ystafell chwarae ac yn yr ardaloedd awyr agored. Cedwir adnoddau ar lefel isel mewn blychau wedi'u labelu. Mae hyn yn galluogi'r plant i wneud dewisiadau o ran eu chwarae ac i ddatblygu eu hannibyniaeth yn effeithiol. Mae gan y lleoliad ystod dda o deganau ac offer i hybu ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Er enghraifft, mae'r offer yn y twba reis yn cynnwys gweill bwyta a charton bwydydd parod Tsieineaidd.

Mae'r ardal awyr agored yn annog dysgu gweithredol yn dda fel chwarae anniben yn y gegin fwd a gweithgareddau corfforol da fel beiciau a fframau ddringo. Mae bron pob un o'r adnoddau yn lân ac yn cael eu cynnal yn dda.

Mae'r plant o dan ddwy oed yn cael gofal da mewn ystafell bwrpasol, ac mae digon o le iddynt chwarae a gorffwys. Er enghraifft, mae ystafell ar wahân i blant fedru cael amser tawel a chysgu.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r person cofrestredig a'r cyd-arweinwyr yn rhannu'r un weledigaeth glir o ran darparu amgylchedd gartrefol a chynhaliol. Maent yn ymrwymedig i feithrin awyrgylch lle mae pob plentyn yn cael ei annog i ddatblygu i'w lawn botensial. Mae'r arweinwyr yn llwyddo i feithrin ymdeimlad llwyddiannus o gydweithio ymhlith yr holl ymarferwyr, gyda phob un yn rhannu gweledigaeth yr arweinwyr. Mae'r arweinwyr yn arwain trwy esiampl gan osod disgwyliadau uchel i'r ymarferwyr. Maent yn rhannu cyfrifoldebau arwain yn bwrpasol gan sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at rediad trefnus y lleoliad o ddydd i ddydd.

Mae'r datganiad o bwrpas yn ddogfen ddefnyddiol ac yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth angenrheidiol. Fodd bynnag, nid yw'n nodi bod darpariaeth ar ôl ysgol ar gyfer plant hyd at 12 oed.

Mae'r arweinwyr wedi sicrhau digon o ymarferwyr â chymwysterau priodol a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant. Mae ymarferwyr yn cael eu defnyddio'n effeithiol yn unol â'u cryfderau i fodloni anghenion y plant. Mae systemau rheoli perfformiad yn bwrpasol ac mae targedau penodol ar gyfer yr ymarferwyr. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn cydgysylltu targedau sy'n deillio o'r broses hon â blaenoriaethau yn y cynllun gwella'n ddigon da. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn mynychu ystod eang o hyfforddiant defnyddiol er mwyn cryfhau eu dealltwriaeth o sut i ddatblygu medrau iaith a lles y plant yn ogystal â dysgu am ddulliau newydd o ddysgu ac addysgu.

Mae'r prosesau hunanwerthuso yn systematig a thrylwyr ac mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos i hunanwerthuso'r ddarpariaeth ac i fonitro a gwerthuso'r canlyniadau. Maent hefyd yn ystyried barn ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn dda.

Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen ddefnyddiol sy'n ystyried y meysydd datblygu sy'n deillio o'r prosesau hunanwerthuso ac mae wedi'i strwythuro'n bwrpasol. Mae'r prosesau gwelliant yn cynnwys terfynau amser, cyfrifoldebau ymarferwyr a chostau

ac maent yn galluogi arweinwyr i gynllunio'n strategol ar gyfer gwelliant.  Fodd bynnag, nid yw'r targedau'n ddigon mesuradwy ac nid oes gwerthusiad o'r cynllun blaenorol er mwyn mesur cynnydd.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid ac mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol at godi safonau ac hyrwyddo lles y plant.  Mae perthynas gadarnhaol rhwng yr ymarferwyr a rhieni'r plant ac mae rhieni yn rhoi canmoliaeth uchel i'r lleoliad am ei cryfder yn y maes hwn.

Mae'r arfer o ddynodi gweithiwr allweddol i ofalu am blant penodol yn hybu'r cyswllt rhwng y cartref a'r lleoliad yn llwyddiannus.  Mae'r gweithiwr allweddol yn bwynt cyswllt penodol ac yn rhoi cymorth a chyngor defnyddiol i rieni a gofalwyr ynglŷn â phob maes o les eu plentyn.  Mae polisi drws agored y lleoliad yn golygu bod rhieni'n cael cyfleoedd rheolaidd i gyfarfod ag ymarferwyr a thrafod unrhyw bryderon yn gynnar iawn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/04/2019